CABINET

DYDD LLUN, 16 MEDI 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd D. Price(Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

G. Davies	H.A.L. Evans	P.M. Hughes	A.C. Jones
A. Lenny	J. Tremlett		

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

L.D. Evans	E.G. Thomas	A. Vaughan Owen

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):
Y Cynghorydd D.M. Cundy

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
W. Walters, Y Prif Weithredwr;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
C. Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant;
A. Williams, Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith;
S. Murphy, Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil;
L. Jenkins, Swyddog Cymorth i'r Aelodau;
C. Higginson, Rheolwr y Cyfryngau;
S. Rees, Cyfieithydd ar y Pryd;
M. Runeckles, Swyddog Cymorth i'r Aelodau ;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):
D. Hall-Jones, Swyddog Cymorth i'r Aelodau.

Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 10:18yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.
Croesawodd yr Arweinydd y Cynghorydd Carys Jones, i'w Chyfarfod Cabinet cyntaf fel yr Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. LLOFNODI COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR 29 GORFFENNAF 2024 YN GOFNOD CYWIR

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2024 yn gofnod cywir.

4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN Y CYHOEDD

5.1. CWESTIWN GAN SION DAVIES I'R CYNGHORYDD. EDWARD THOMAS, YR AELOD CABINET DROS WASANAETHAU TRAFNIDIAETH, GWASTRAFF A SEILWAITH

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd Mr Davies yn bresennol i ofyn ei gwestiwn a'i fod wedi gofyn i'r cwestiwn gael ei ofyn ar ei ran.

"O ystyried y pryderon eang ymhlith gweithlu casglu gwastraff Sir Gaerfyrddin ynghylch y newid arfaethedig i gasglu biniau du bob pedair wythnos a chanoli gweithrediadau gwastraff yn Nantycaws, gan gynnwys ofnau am ddechrau'n gynt, teithio'n bellach a'r effaith ar gymunedau lleol, a wnaiff yr Aelod Cabinet esbonio pam mae'r cynigion hyn yn cael eu datblygu er gwaethaf anfodlonrwydd clir ymhlith y rhai y byddant yn effeithio arnynt fwyaf?"

Ymateb gan y Cynghorydd Edward Thomas, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith:-

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau gwybodus sy'n cydbwyso anghenion cynaliadwyedd amgylcheddol cymunedol a hyfywedd economaidd. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn i ddatblygu'r strategaeth ac mae wedi ymrwymo i barhau i gydweithio i gyflawni'r newidiadau hyn mewn ffordd sy'n gwella'r gwasanaeth y mae'r cyhoedd yn ei dderbyn. Mae hyn yn cynyddu'r gwastraff sy'n cael ei ailgylchu ac yn sicrhau effeithlonrwydd cost ar gyfer y tymor hir. Cawsom eich gohebiaeth ar y mater hwn a byddem yn anfon ymateb llawn yn dilyn y cyfarfod hwn.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i dynnu sylw ei fod hefyd wedi derbyn llythyr gan Mr Davies yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd y blaid Geidwadol yn Llanelli. Ymateb ar y cyd gan yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith i ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn y llythyr.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGHYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODAETH 2023/2024

Fel rhan o ofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol y Cyngor ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth ar gyfer 2023-2024.

Mabwysiadodd y Cyngor Bolisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd ar gyfer 2023-24 ar 1 Mawrth 2024.

Rhestrodd yr adroddiad blynyddol y gweithgareddau a gynhaliwyd yn y flwyddyn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR bod yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth 2023-2024 yn cael ei gymeradwyo.

7. RHAGOLYGON Y GYLLIDEB REFENIW

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad ar ragolwg ariannol presennol y Cyngor a'r wybodaeth ddiweddaraf am y model ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Amlinellodd yr adroddiad y cynigion ar gyfer paratoi'r gyllideb am y flwyddyn nesaf.

Dywedwyd bod hwn yn amser pryderus i bawb yn y Cyngor ac i lywodraeth leol ledled Cymru. Mae trafodaethau sy'n cael eu cynnal ar draws y wlad gydag Arweinwyr ac Aelodau'r Cabinet yn nodi pryder sylweddol mewn perthynas â gallu'r Llywodraethau Lleol i ariannu'r bwlch. Codwyd y dylid gwneud darn pwysig o waith yn ystod y misoedd nesaf, o ran lobïo Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyflogau a chynnydd mewn prisiau yn cael eu hariannu'n ddigonol dros y flwyddyn ariannol nesaf a'r tymor canolig.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:-

7.1 derbyn y rhagolwg cyllidebol cychwynnol ar gyfer 2025/26 i 2027/28;
7.2 cymeradwyo'r dull arfaethedig o glustnodi'r arbedion angenrheidiol;
7.3 cymeradwyo'r dull arfaethedig o Ymgynghori ynghylch y Gyllideb.

8. CYMERADWYO PENODI'R CYNGHORYDD DERYK CUNDY I SEDD WAG GRŴP LLAFUR AR BANEL YMGYNGHOROL Y GWEITHGOR GWLEDIG

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd Deryk Cundy i sedd wag y Grŵp Llafur ar Banel Ymgynghorol y Gweithgor Gwledig.

9. UNRHYW FATER ARALL

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

_____ **_____**

Y CADEIRYDD **Y DYDDIAD**